

SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â'R GYMRAEG

ADRAN 4, MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011: “HYBU A HWYLUSO DEFNYDDIO'R GYMRAEG A PHEIDIO Â THRIN Y GYMRAEG YN LLAI FFAFRIOL NA'R SAESNEG”

CYNGOR A GYFLWYNIR O DAN IS-ADRAN (2)(J): “RHOI CYNGOR I UNRHYW BERSON”

Sylwadau rhagarweiniol

Caiff y cyngor hwn ei ddarparu i Weinidogion Cymru yn sgil cynnal cylch cyntaf ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg [27 Ionawr - 18 Ebrill 2014].

Ar 6 Ionawr 2014 fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi safonau arfaethedig ar ei gwefan. Nid yw'r safonau yn rhai sydd wedi eu pennu drwy reoliadau is-adran 26 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [Mesur y Gymraeg]. Y bwriad yw gwneud hynny ym mis Tachwedd 2014.

O dan y trefniadau presennol mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn cynnal prosesau cyflwyno safonau'n gyfochrog â'i gilydd. Mae hynny'n gwbl briodol o dan delerau Mesur y Gymraeg.

Er hynny nid oedd yn hawdd i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses a bu i'r Comisiynydd dderbyn ymateb ar y safonau arfaethedig eu hunain yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn hytrach na derbyn sylwadau ar bwnc yr ymchwiliad.

Cafwyd ymatebion o blith y cyhoedd a grwpiau diddordeb yn mynegi nad oedd yn glir iddynt a oedd modd rhoi barn ar safonau arfaethedig y Llywodraeth ai peidio a dewisodd ymatebwyr gyflwyno sylwadau ar y safonau i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu cyflwyno cyngor i Weinidogion Cymru sy'n seiliedig ar y themâu a amlygwyd gan ymatebwyr a'u barn hwy ar y safonau arfaethedig. Nid yw'r sylwadau hyn yn ceisio diwallu proses ymgynghori ar y safonau arfaethedig.

Dylid nodi nad yw Comisiynydd y Gymraeg yn rhagweld darparu cyngor o'r math hwn yn dilyn cynnal ymchwiliadau safonau unwaith y bydd safonau mewn perthynas â'r Gymraeg wedi eu pennu drwy reoliadau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â'R GYMRAEG

ADRAN 4, MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011: "HYBU A HWYLUO DEFNYDDIO'R GYMRAEG A PHEIDIO Â THRIN Y GYMRAEG YN LLAI FFAFRIOL NA'R SAESNEG"

CYNGOR A GYFLWYNIR O DAN IS ADRAN (2)(J): "RHOI CYNGOR I UNRHYW BERSON"

Y broses o gyflwyno safonau

- Bydd yn bwysig meddu ar drefniadau clir a phriodol ar gyfer cylchoedd nesaf ymchwiliadau safonau a'r safonau arfaethedig ar gyfer y sefydliadau hynny.
- Dylai Gweinidogion Cymru roi cyfle dilys a phwrrpasol i'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny gael dweud eu barn ar y safonau arfaethedig. Dylid gwneud hynny drwy ymgynghori'n llawn ar y safonau pan fyddont mewn rheoliadau o dan is-adran 26 a chyn iddynt gael eu cyflwyno at sylw'r Senedd.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd ar y broses gyflwyno safonau fel y'i gweithredwyd:

'Mae'r safonau arfaethedig wedi eu nodi mewn dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Nid yw'r ddogfen yn cynnwys llawer o fanylion am natur yr ymgynghoriad. . . . Nid yw'n eglur a fyddai'r Llywodraeth yn croesawu safbwyntiau unrhyw unigolion neu sefydliadau eraill. Ni roddir unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a pha broses y bydd yn ei dilyn i adolygu'r safonau o ystyried yr ymatebion a dderbynnir.' **Dyfodol Defnyddwyr**

'Nid yw'n glir ai Llywodraeth Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg sy'n cynnal yr ymgynghoriad / ymchwiliad hwn. Y Llywodraeth gyhoeddodd y ddogfen ymgynghorol; serch hynny, nid yw'r ddogfen ar gael yn adran 'Ymgynghoriadau' gwefan y Llywodraeth. Rhaid mynd i wefan Comisiynydd y Gymraeg i ddod o hyd i wybodaeth am sut i ymateb i'r ymgynghoriad - ond yna rhaid mynd oddi yno i wefan Llywodraeth Cymru i lawrlwytho'r ddogfen ymgynghorol. Yn fyr, teimlwn fod y broses ymgynghorol ei hun yn ddiffygiol ac ni fyddem yn synnu pe byddai'r cyfraddau ymateb - yn enwedig o blith y cyhoedd - yn isel.' **UCAC**

'Nid yw natur a statws y ddogfen yn gwbl glir. Ai dogfen ymgynghorol yw hon sy'n gosod rhai egwyddorion ar gyfer ennyn ymateb gyda'r bwriad o fod yn sail ar gyfer drafftio dogfen derfynol; neu ai fersiwn drafft sydd yma o ddogfen derfynol?' **UCAC**

'Nid yw'n iawn cyrraedd sefyllfa lle bo'r Llywodraeth yn ogystal â'r Comisiynydd yn gwrthod gwneud sylwadau cyhoeddus am gynnwys y ddogfen.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Rydym yn teimlo o'r adborth rydym wedi derbyn gan y gymuned, nid yw'r broses o ymateb i'r ymgynghoriad wedi bod yn hawdd neu'n hwylus i unigolion nad yw'n gyfarwydd iawn â pholisi cyhoeddus.' **Menter Iaith Maelor, Menter Iaith Sir y Fflint, Mentrau Iaith Cymru**

'Nid yw'n ymddangos fod yr ymgynghoriad wedi cael yr un cyhoeddusrwydd ag ymgynghoriadau eraill (e.e. heb ei hyrwyddo mor eang â'r ymgynghoriad yn arwain at y Gynhadledd Fawr).' **Menter Iaith Maldwyn**

Cysondeb ac eglurder

- Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod ffocws y safonau cyflenwi gwasanaethau ar y dinesydd a bod y dyletswydd cyfatebol sydd ar y sefydliad yn ddiamwys ym mhob safon, yn arbennig pan fo cymal yn ymwneud â'r cam o 'gyflenwi' rhwng y defnyddiwr a'r darparwr.
- Mae geiriad rhai safonau'n rhoi disgresiwn i sefydliad a lle digwydd hyn bydd eisiau ail feddwl dros y ddyletswydd e.e. safonau'n gosod dyletswydd ar sefydliad i ffurfio cynllun neu strategaeth ond heb gymhelliad polisi cysylltiedig. Ymddengys bod gan sefydliad rwydd hynt i ddewis ei bolisi ei hun. Dylai safonau ddweud beth yw'r disgwyliad polisi a osodir ar sefydliad mewn safon gan gadw gofynion ynghylch sut y mae cyflawni'r disgwyliad, boed drwy gynllun neu strategaeth neu fel arall, i ddarpariaethau atodol. Os yw'r Llywodraeth am barhau i ofyn am gynllun a strategaeth fel rhan o safon benodol ni ddylai hynny ddigwydd heb fod disgwyliad polisi hefyd yn bresennol o fewn y safon honno.
- Yn ogystal darperir diffiniadau i rai safonau yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg¹', ond nid i eraill. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau y ceir diffiniad ar gyfer pob dosbarth o safon, a hynny er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb i ddefnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd ar gysondeb ac eglurder y safonau arfaethedig i ddefnyddwyr gwasanaethau ac ynghylch hawliau siaradwyr Cymraeg.

'Nid yw'r ddogfen 'ymgynghorol' wedi cael ei lunio ar gyfer y cyhoedd, dyna graidd y broblem gyda hi. Diffyg sy'n amlygu diffyg dealltwriaeth enbyd o ran diben y safonau yn ogystal â chyd-destun yr ymgyrch iaith a arweiniodd at basio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Diben y safonau, i fod, yw creu hawliau clir, cryf i'r cyhoedd i gael gwasanaethau Cymraeg gwell.' **Cymdeithas yr Iaith**

'Roeddem yn falch i weld bod y safonau wedi eu paratoi â'r egwyddor o "sicrhau hawliau clir a siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg" mewn cof a bod Llywodraeth Cymru "wedi datblygu safonau sy'n rhai clir a manwl". Serch hynny. Nid ydym yn credu bod y safonau drafft a gyhoeddwyd yn ateb y ddau bwynt uchod.' **Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor**

'Nid yw'r safonau arfaethedig yn eu ffurf bresennol yn gosod hawliau clir i siaradwyr Cymraeg.' **Menter Iaith Maldwyn**

'Hyd yn oed os cânt eu cyhoeddi, nid yw cynlluniau a strategaethau'n debygol o gynnig

¹ www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140106-consultation-on-standards-relating-to-the-welsh-language-cy.pdf

egludeb i ddefnyddwyr ar ba wasanaethau y gallant eu derbyn yn y Gymraeg. Mae hyn yn wir hefyd am y safonau ynglŷn â chyhoeddiadau gan nad ydynt yn ei gwneud yn eglur i'r cyhoedd pa gyhoeddiadau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg. Yn hytrach, maent yn darparu meini prawf amwys a fydd yn rhoi disgrisiwn sylweddol i sefydliadau benderfynu a ydynt am gyhoeddi deunyddiau yn y Gymraeg ai peidio.' **Dyfodol Defnyddwyr**

'Mae nifer o enghreifftiau o safon sy'n creu dyletswydd i lunio cynllun neu strategaeth. Nid yw safonau o'r fath yn llesol i'r unigolyn, sydd am hawliau clir a chadarn, nag ychwaith i'r sefydliad sydd eisiau deall yr hyn y dylen nhw ei wneud.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Cynnig Rhagweithiol

- Dylai Gweinidogion Cymru dynhau yn gysyniadol ar y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigiwyd fel bod y safonau'n gosod dyletswydd ar sefydliadau i roi cynnig rhagweithiol i ddefnyddwyr.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd y dylai cynnig rhagweithiol gael ei ddefnyddio fel erfyn polisi wrth amlygu gwasanaethau i bersonau.

'Problem gyffredinol bod y safonau yn gofyn i bobl nodi eu bod nhw am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg cyn bod gyda nhw hawl i dderbyn gwasanaeth Cymraeg.. . . Yn wir, mae angen cael gwared ar y cysyniad bod rhaid nodi ymlaen llaw eich dewis i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn cael mynediad at y gwasanaeth.'

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

'Mae safonau niferus lle mae baich ar yr unigolyn i ddatgan neu i sicrhau bod y sefydliad wedi nodi eu bod nhw am ddelio â nhw yn Gymraeg. . . . Credwn fod nifer o'r safonau yn gwneud gwasanaeth Cymraeg yn ddibynnol ar y ffaith bod y defnyddiwr "wedi nodi" ei fod am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Mae safon o'r fath yn golygu bod baich ar yr unigolyn i ddatgan ei fod am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r safon yn cymryd yn ganiataol mai'r Saesneg yw iaith ddiofyn y ddarpariaeth, a bod y Gymraeg yn ychwaneg at hynny. Mae hynny'n gwbl annerbyniol.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Mae angen i'r safonau ddatgan yn glir fod gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth drafod ac wrth dderbyn gwasanaeth a bod angen i'r cyrff gyflenwi a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, heb fod yn rhaid i'r dinesydd ofyn am y gwasanaethau hynny.' **Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor**

'Mae angen gosod safon ar sefydliadau i fod yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd. . . . Dylai fod yn egwyddor gyffredinol gyda'r holl safonau bod y sefydliadau sydd yn ddarostyngedig yn profi eu bod yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg.' **Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor**

*'Mae gormod o bwyslais ar yr unigolyn dan y drefn bresennol. Mae angen sicrhau fod y ddarpariaeth ar gael heb roi pwysau ar yr unigolyn i'w hawlio.. . . . Ceir rhestr o wasanaethau, a'r rhain ar y cyfan yn rhai gweinyddol yn hytrach na phwyslais ar y gwasanaeth rheng flaen ei hun'. Byddai'r cynnig o **gynnig rhagweithiol** yn ffordd o oresgyn hynny. Dylai fod yn egwyddor gyffredinol yn yr holl safonau.'* **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

'Mae hefyd angen i'r safonau fod yn uchelgeisiol gan osod lefel o wasanaeth fydd yn arwain at gynnig y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod yn rhaid iddynt ofyn am gael defnyddio'r Gymraeg.' **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

'Mae'r syniad o ofyn i bobl ymlaen llaw a ydynt am gyfrannu yn Gymraeg i gyfarfod cyhoeddus, yn un gwbl annerbyniol. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb yn llwyr ac yn drwm ar y siaradwyr Cymraeg, yn hytrach nag ar y sefydliad i ddarparu.' **UCAC**

'Mae UCAC yn gadarn o'r farn bod angen ailfeddwl safonau 30-33 yn llwyr, ar sail yr egwyddor o gynnig gwasanaethau mewn dull rhagweithiol, yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar y defnyddiwr i fynnu gwasanaeth/darpariaeth.' **UCAC**

'Mae ymchwil ym maes gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi canfod ei bod yn ymddangos yn gyffredinol, "... bod diwylliant canolog y sector iechyd a gofal yng Nghymru yn gosod disgwyliad ar y defnyddiwr neu'r gofalwr i adnabod yr angen a chreu'r galw am wasanaethau Cymraeg, nid ar y sail fod gan y darparwyr ddyletswydd i gynnig a darparu.' **Dyfodol Defnyddwyr**

'... mae dull cyffredin o ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y darparwr i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei gyflawni os yw wedi ei ymwreiddio yn y safonau eu hunain.' **Dyfodol Defnyddwyr**

Safonau Gweithredu

○ Mewn ymateb i'r sylwadau niferus ar y safonau gweithredu a gynigir mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig y dylid pennu safonau ychwanegol ar y mater hwn. Nodir hefyd bod y cyngor hwn yn gyson ag argymhellion a gyflwynwyd yn Adroddiad Cymunedau Gymraeg, adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, yn nodi y dylid 'cytuno ar dargedau i ehangu gweithlu dwyieithog a gweithredu mewnol dwyieithog gydag asiantaethau perthnasol o fewn i gwmpas Safonau'r Iaith Gymraeg².

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd mewn cysylltiad â safonau gweithredu.

'Nodwn ymhellach fod cyngorau Sir Gar a Cheredigion wedi ymrwymo i weithio tuag at weinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiweddar. Mae'n gadael y cyrff hynny heb arweiniad a chefnogaeth i gyflawni polisi a fyddai'n gwneud lles mawr i'r iaith mewn ardaloedd y gwelwyd cwmpas mawr yn nifer ei siaradwyr yn y cyfrifiad diwethaf.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Does dim byd yn y safonau a fydd yn diogelu polisi iaith y Cyngor hwnnw nac yn symud rhagor o gyrff at ei bolisi.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Mae angen targedau penodol ar gyfer cynyddu nifer y gweithlu sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith yn y sefydliadau dan sylw. Yn sgil hyn, nid yw'r safonau fel y maent yn rhoi awgrym y bydd y Gymraeg yn dod yn iaith amlach ei defnydd mewn sefydliadau cyhoeddus.' **Dyfodol i'r iaith**

'Byddai sicrhau defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle'n cael effaith eang ar ganfyddiad pobl o'r iaith. Byddai'n rhoi gwerth economaidd i'r iaith, a byddai'n rhoi i'r Gymraeg barth defnydd nad yw ar gael ar y cyfan mewn sefydliadau cyhoeddus ar hyn o bryd, ac eithrio Cyngor Sir Gwynedd.' **Dyfodol i'r iaith**

'Credwn fod adrannau 95 ymlaen yn delio â materion arwynebol o'u cymharu â chreu trefn sy'n rhoi lle i'r Gymraeg gael ei defnyddio yn y gweithle. Mae angen i'r safonau gynnwys targedau ar gyfer ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.' **Dyfodol i'r iaith**

Croesawn adrannau 105 i 110, yn enwedig yr angen i roi hyfforddiant iaith yn ystod oriau gwaith. Mae angen cyplysu hyn â thargedau o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.' **Dyfodol i'r iaith**

'Mae nifer o ffyrdd y gallai'r safonau sicrhau bod cyrff yn gweinyddu, sef gweithredu, yn fewnol yn Gymraeg. Ond nid yw'r safonau drafft hyn yn cynnwys yr un ohonynt.'

² www.wales.gov.uk/topics/welshlanguage/publications/welsh-speaking-communities-report-and-work-plan/?lang=cy

Er enghraifft, gellid symud fesul adran at weithredu'n fewnol yn Gymraeg.'
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

'Nid oes sôn am hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fel yr iaith o'u dewis yn y gweithle. Mae'n bwysig bod unigolion yn gwybod bod ganddyn nhw hawl i weithio yn y Gymraeg pe baent yn dymuno gwneud hynny ac fel blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fe fyddai'n fanteisiol i gynnwys safon sy'n cyfeirio at yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol.' **Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor**

'Dim byd strategol yn y safonau (cynllunio'r gweithlu). Diffyg mawr. Angen datblygu polisi cynyddol dros amser (incremental) er mwyn tyfu a chryfhau.' **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

'Nid yw'n glir ymha ffordd y gall corff o dan y safonau hyn symud i fod yn gorff lle mae'r Gymraeg yn iaith weinyddol bob dydd. Dylid darparu safon(au) sydd yn gosod rheoliadau i annog datblygiad o'r fath.' **Simon Thomas AC - Aelod y Cynulliad dros y Canolbarth a'r Gorllewin, Gweinidog Cysgodol dros Addysg, Sgiliau a'r Iaith Gymraeg**

Safonau Gweinyddol

○ Nid yw'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau atodlen 9, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na'r gweithgareddau ychwanegol yn gosod unrhyw ddyletswydd i ystyried y Gymraeg wrth gyd gynllunio gwasanaethau traws ffiniol. Gwerth yw nodi'r sylw canlynol yn codi o Gomisiwn diweddar Syr Paul Williams³ bod *“angen i ddinasyddion gael eglurder ynghylch sut y caiff cyfrifoldebau eu dosbarthu rhwng sefydliadau gwahanol er mwyn iddynt ddeall eu hawl i wasanaethau a sut i fanteisio arnynt. Mae ganddynt hefyd hawl i ddisgwyl gwasanaethau di-dor a chyd gysylltiedig sydd, gyda'i gilydd, yn diwallu eu hanghenion, heb orfod negodi neu drefnu darpariaeth o'r fath ar wahân eu hunain”*. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig y dylid pennu safonau ychwanegol ar y mater hwn yn ei hadroddiadau safonau.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd mewn cysylltiad â'r ffaith bod y safonau arfaethedig yn ymwneud yn ormodol gyda materion gweinyddol a hynny ar draul cyflenwi gwasanaeth yn ehangach:

‘Mae'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn allweddol i gael effaith go iawn a chadarnhaol ar fywydau pobl o ddydd i ddydd. Y brif elfen sydd angen newid a chryfhau yn sylweddol yw'r pwyslais ar weinyddu yn hytrach na darparu. Y gwasanaeth a darpariaeth sy'n cael y dylanwad mwyaf ar fywyd unigolyn, nid y modd y mae gwasanaethau yn cael eu gweinyddu. Derbyniwn yn llwyr fod gweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg yn allweddol i gynyddu a datblygu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan y sefydliadau fydd yn ddarostyngedig i'r safonau, ond nid yw'r weinyddiaeth ar ben ei hun yn ddigonol i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.’ **Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor**

‘Mae'r math o safon yn allweddol wrth effeithio ar fywydau'r defnyddwyr cyffredin. Nid o reidrwydd yr agwedd weinyddol ond y gwasanaeth ei hun. Y gwasanaeth sy'n cael y dylanwad mwyaf ar fywyd unigolyn.’ **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

‘Ar hyn o bryd, mae gormod o bwyslais ar sut y dylai cyrff sydd yn ddarostyngedig i'r safonau weinyddu yn hytrach na sut y bydd rhaid iddynt ddarparu gwasanaethau, sef yr hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl.’ **Menter Iaith Maldwyn**

‘Mae'r safonau arfaethedig yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar ba wasanaethau y dylid eu darparu yn Gymraeg ac nid ydynt yn eglur ynglŷn â sut i'w darparu.’ **Dyfodol Defnyddwyr**

³ www.wales.gov.uk/docs/dpsp/Publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf

Adeiladu ar ymrwymïadau mewn cynlluniau iaith

- Rhaid i safonau beidio cwympo islaw yr hyn a nodir yn y canllawiau statudol na bod yn llai cryf ac eglur eu ddiffiniad na'r hyn a nodir yno. I'r perwyl hwnnw, dylai Gweinidogion Cymru ail ymweld â diffiniadau rhai safonau e.e. ystyr 'grant', y diffiniad o arwydd; yr angen i barhau i ddefnyddio'r termau hanfodol/dymunol wrth osod rhagofynion *sgiliau* iaith swyddi fel ag y mae wedi ei nodi yn y canllawiau statudol a gymeradwywyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn 1995.
- Dylai safonau a'r diffiniadau cysylltiedig ehangu ac nid cyfyngu ar allu presennol personau i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Os am gyflwyno safonau amodol dylid gallu dangos ym mha fodd mae'r safonau hynny'n hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg neu'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae angen gallu rhoi sicrwydd y bydd y safonau hyn yn arwain at welliant cyffredinol dros amser i ddefnyddwyr.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd mewn cysylltiad â'r ffaith bod eisiau i'r safonau arfaethedig adeiladu ar ymrwymïadau mewn cynlluniau iaith.

'Mae nifer o'r safonau - megis y rhai am wefannau, cyhoeddiadau, ffurflenni, gwasanaethau ffôn, derbyn ymwelwyr, a chyfarfodydd . . . yn cynnig llai na chynlluniau iaith.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Nid yw safonau 20, 21, 43, 44, 46, 47, 60, 61, 62 yn dderbyniol o gwbl, gan eu bod yn golygu y gallai corff gynnig gwasanaethau eilradd yn y Gymraeg.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Credwn fod y safonau ynghylch ffurflenni a chyhoeddiadau yn is o lawer na'r hyn a ddisgwylir gan gynlluniau iaith, yn enwedig safonau 44 a 47. Mae'r safonau hyn yn gam yn ôl ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n dweud bod rhaid cyhoeddi unrhyw ddeunydd a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Pam nad oes rhagdybiaeth o blaid y Gymraeg yn y safonau hyn? Credwn fod eu geiriad presennol yn groes i egwyddorion Mesur y Gymraeg, gan eu bod yn rhagdybio na fydd dogfennau yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg oni fodlonir lefel benodol o alw. Dylai fod disgwyliad fod popeth yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Mae rhaid osgoi sefyllfa ble mae'r Safonau'n darparu llai na chynlluniau iaith. Unwaith y daw'r safonau i rym bydd cynlluniau iaith yn dod i ben felly mae angen sicrhau fod y safonau yn gryfach na phob un o gynlluniau iaith y Cyngorau Sir, Llywodraeth Cymru a'r Parciau Cenedlaethol.' **Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor**

'Rhaid osgoi sefyllfa ble mae'r Safonau'n darparu llai na'r Cynlluniau Iaith.'

Mudiadau Dathlu'r Gymraeg

'Byddai yn braf iawn petai y cyrff yn darparu o leiaf yr un lefel o wasanaeth yn Gymraeg ag sydd ar gael yn Saesneg. Nid yw'n dderbyniol bod y safonau yn cynnig llai o hawliau na'r cynlluniau iaith bresennol.' **Merched y Wawr yn Genedlaethol**

'Barn Plaid Cymru yw bod rhaid i'r safonau ar gyfer y cyrff hyn adeiladau (sic) ar waith da ac arfer da a gafwyd o dan cynlluniau iaith a sefydlwyd o dan y ddeddf honno. Ni ddylasai'r safonau felly ganiatáu i lefel is o wasanaeth fod mewn unrhyw ran o Gymru nag oedd yn ddisgwyliedig o dan yr hen gynlluniau iaith.' **Simon Thomas AC - Aelod y Cynulliad dros y Canolbarth a'r Gorllewin, Gweinidog Cysgodol dros Addysg, Sgiliau a'r Iaith Gymraeg**

'... mae rhai o'r opsiynau a gynigir yn llawer rhy wan ym marn UCAC, ac o bosib yn wannach na gofynion y Cynlluniau Iaith presennol.' **UCAC**

'Mae geiriad y safon hon [21] yn awgrymu bod modd cynnig gwasanaethau llinell cymorth eilradd yn y Gymraeg na'r Saesneg (e.e. am lai o oriau). Credaf fod hyn yn gam yn ôl o'r gwasanaeth a ddisgwyli'r yn awr.' **Simon Thomas AC - Aelod y Cynulliad dros y Canolbarth a'r Gorllewin, Gweinidog Cysgodol dros Addysg, Sgiliau a'r Iaith Gymraeg**

'Nid yw hawl yn dibynnu ar nifer ac felly dylid diddymu'r gofyniad am bum person [33] i ofyn am gyfrannu'n Gymraeg cyn y gwneuler darpariaeth briodol.' **Simon Thomas AC - Aelod y Cynulliad dros y Canolbarth a'r Gorllewin, Gweinidog Cysgodol dros Addysg, Sgiliau a'r Iaith Gymraeg**

Ystyron cyfyngedig rhai safonau

- Nid yw darparu rhestrau mewn safon yn syml nac yn glir i'r cyhoedd a gall gyfyngu ar ystyr y safon. Yn ogystal â hynny, pe byddai'r angen i ychwanegu at y rhestr hwnnw'n cael ei amlygu, byddai disgwyl i Weinidogion Cymru bennu safon drwy reoliadau unwaith yn rhagor. Awgryma Comisiynydd y Gymraeg mai mewn cod ymarfer y dylid cael manylder o'r fath.
- Dylid cadw diffiniadau'r Mesur yn eang pan yn defnyddio termau sy'n codi ohono mewn safonau, i'r graddau y bo'r Mesur yn ei ganiatáu.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd mewn cysylltiad â'r ffaith bod ystyron cyfyngedig i rai safonau

'Drwy ddilyn trefn bresennol y Llywodraeth, gallai nifer o bethau amlwg gael eu hanghofio, yn anfwriadol, megis unrhyw ddull newydd o gyfathrebu nad yw'n bodoli ar hyn o bryd.' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Mae'r broblem o fethu gwarchod y safonau rhag mynd allan o ddyddiad a methu dal lan a newidiadau technoleg yn cael ei hamlygu gan safon 52 ynghylch apiau electroneg. Mae'n safon rydym yn ei chroesawu, ond mae'n gyfyng. Oni ddylai fod safon sy'n golygu bod unrhyw declyn electroneg neu ryngwyneb electroneg a gyhoeddir neu reolir gan y sefydliad fod ar gael yn Gymraeg?' **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

'Nid yw'n ddoeth ceisio rhestru mewn safonau ac felly mewn rheoliadau enghreifftiau o ddogfennaeth. Mae'n well uno'r safonau hyn a sicrhau bod cyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n anodd meddwl am sefyllfa pryd na fyddai'n gwbl resymol i ddarparu ffurflen gan y cyrff hyn yn y Gymraeg.' **Simon Thomas AC - Aelod y Cynulliad dros y Canolbarth a'r Gorllewin, Gweinidog Cysgodol dros Addysg, Sgiliau a'r Iaith Gymraeg**

Ymgynghori ac ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg

- Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig y dylid pennu safonau ychwanegol ar y mater hwn yn ei hadroddiadau safonau.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o'r farn a fynegwyd mewn cysylltiad â'r ffaith bod angen pennu safon yn ymwneud ag ymgynghori ac ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg.

'Mae hybu'n rhan annatod o'r Safonau, ac mae angen nodi'n benodol sut y bydd sefydliadau'n hybu gwahanol agweddau ar eu gwaith. Dylai hyn gynnwys materion fel defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, addysg Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn gymunedol, defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau.' **Dyfodol i'r iaith**

'Dylid ystyried cynnig safonau sy'n mynnu bod darparwyr yn ymgysylltu'n ddigonol â siaradwyr yr iaith Gymraeg wrth ddylunio a darparu gwasanaethau Cymraeg, fel modd o sicrhau dylanwad ar gyfer defnyddwyr dros wasanaethau Cymraeg ac er mwyn sefydlu partneriaeth a gwell ymddiriedaeth rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau Cymraeg.' **Dyfodol Defnyddwyr**

'...mae nifer o ddarparwyr yn defnyddio safonau Sefydliad Safonau Prydain fel dull o gyfleu ansawdd eu gwasanaethau, gan gynnwys BS 18477 sy'n ymwneud â gwasanaethau cynhwysol. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnig safonau sy'n ceisio cynyddu hyder ymhlith y cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg, ac i ba raddau y maent ar gael. Mae'n hanfodol hefyd bod y safonau'n ymdrin â'r anawsterau a wynebir ar hyn o bryd gan y bobl hynny sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau yn y Gymraeg, er mwyn iddynt gyflawni eu hamcanion. Gallai'r safonau arfaethedig olygu bod rhai mathau o wasanaethau Cymraeg yn fwy amlwg, ond gallent a dylent fynd yn llawer pellach i ymdrin â'r diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol am y gwasanaethau sydd ar gael a ffactorau eraill sy'n rhwystro pobl rhag eu defnyddio.' **Dyfodol Defnyddwyr**

Cyfieithu ar y pryd a chyfieithu olynol

○ Mae safonau 28, 29, 99, 100, a 115 yn disgrifio sefyllfaoedd lle mae person wedi gofyn am gyfarfod ‘yn Gymraeg’ ac yn nodi y dylid darparu gwasanaeth cyfieithu o’r Gymraeg i’r Saesneg ac o’r Saesneg i’r Gymraeg yn y cyd-destunau hynny. Mae’n bosibl, fodd bynnag, na fyddai pob person sy’n gwneud cais o’r fath yn *dymuno*’r gwasanaeth dwy ffordd hwn a dylid sicrhau bod rhyddid gan berson i ddewis a yw’n dymuno gwasanaeth cyfieithu i’r Gymraeg ai peidio.

Nodir hefyd nad yw’r safonau yn ymwneud â chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn manylu ynghylch cyfeiriad y cyfieithu. Dylid rhoi arweiniad cliriach ar y mater hwn.

Nodir mai dim ond yng nghyd-destun cyfarfodydd personol y cynigir safon sy’n ymwneud â chyfieithu olynol (29). Dylid pwysleisio bod cyfieithu olynol yn sgîl ac yn ddisgyblaeth wahanol iawn i gyfieithu ar y pryd, wrth gwrs, a phrin yw’r defnydd ohoni yng Nghymru ar hyn o bryd.

Ni fyddai profiad na chymhwyster gan gyfieithwyr proffesiynol yn y maes hwn a byddai’n rhaid mynd i’r afael â’r sefyllfa honno ar fyrder. Mae peth manteision i ddefnyddio cyfieithu olynol mewn amryw o gyd-destunau cyhoeddus ond nid yw’r Comisiynydd o’r farn mai dyma’r dull mwyaf priodol o gyfieithu mewn cyfarfod personol – yn enwedig pe bai’r cyfarfod hwnnw yn un sensitif – gan fod yna elfen o grynhoi ynghlwm wrth gyfieithu olynol yn hytrach na chyfieithu gair am air. Mae risg y gellid colli manylion allweddol yn y broses.

Derbyniwyd sylwadau gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru mewn perthynas â’r safonau lle cyfeirir at gyfieithu ar y pryd a chyfieithu olynol.

“1. Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru am ymateb i’r safonau arfaethedig hynny lle cyfeirir at gyfieithu ar y pryd (CAP) a chyfieithu olynol.

2. Gwasanaeth i’r di-Gymraeg ac nid i’r Cymry Cymraeg yw CAP. Yr arfer a dderbyniwyd ers blynyddoedd yw y darperir gwasanaeth CAP i’r Saesneg, heblaw mewn rhai achosion llys.

3. Ym mhrofiad y Gymdeithas a sawl un o’n haelodau CAP, ychydig iawn o alw sydd am CAP i’r Gymraeg. Yn ddiethriad bron, mae ymholiadau am CAP i’r Gymraeg yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth ar ran y sawl sy’n trefnu’r cyfarfod.

4. Mae angen ystyried goblygiadau ariannol darparu CAP y ddwy ffordd ar adeg pan mae sefydliadau dan bwysau ariannol ac yn bryderus ynghylch costau cyfieithu, gan y bydd angen dau gyfieithydd.

5. Yn safonau arfaethedig 28, 99, 100, 115, a oes galw am CAP i'r Gymraeg yn y cyd-destunau dan sylw pan fo hyn wedi bod yn digwydd yn naturiol trwy ddarparu gwasanaeth CAP i'r Saesneg yn unig ers blynyddoedd?

6. Yn achos safon arfaethedig 28, awgrymwn y dylai'r rheoliadau nodi ym mha sefyllfaoedd y dylid darparu gwasanaeth CAP i'r Gymraeg a chynnig arweiniad clir, e.e. cyfweliad ag unigolyn bregus neu blentyn, fel sy'n gallu digwydd yn y llysoedd.

7. Yn safon arfaethedig 29, nid yw cyfieithu olynol yn briodol i'r cyd-destun dan sylw. Mewn cynhadledd neu ddigwyddiad y defnyddir cyfieithu olynol fel arfer ac nid yn y cyd-destun hwn. Os yw'r sefyllfa'n mynnu fod angen cyfieithiad i'r Gymraeg hefyd, a lle nad oes offer CAP ar gael, awgrymwn y dylai'r cyfieithydd ar y pryd sibwrdd y cyfieithiad. Os yw'r safon arfaethedig yn cyfeirio at gyfarfod y mae'n rhaid ei gynnal y tu allan yn yr awyr agored, yna mae offer CAP symudol ar gael. Yn y sefyllfa dan sylw, gallai'r defnyddwyr warafun gwrando ar gyfieithiad olynol. Credwn hefyd y byddai cyfieithu olynol hefyd yn gam yn ôl ar ôl blynyddoedd o arfer â CAP.

8. Os gweithredir safon arfaethedig 29, awgrymwn y dylai'r rheoliadau nodi'n glir ym mha sefyllfaoedd y dylid darparu gwasanaeth CAP neu gyfieithu olynol. Gellid dehongli safonau arfaethedig 28 a 29 i olygu fod angen darparu'r ddau wasanaeth ar gyfer yr un cyfarfod.

9. Os gweithredir safonau arfaethedig 28, 29, 99, 100, 115, awgrymwn y dylai'r rheoliadau nodi'n glir yr angen am ddau gyfieithydd ar y pryd. Gall cyfieithu i'r ddau gyfeiriad fod yn dreth sylweddol ar stamina corfforol a meddyliol cyfieithydd ac mae i hynny oblygiadau o safbwynt safon ac ansawdd y cyfieithu.

10. Er ein bod ni'n croesawu'r arweiniad i drefnwyr cyfarfod a geir yn safon arfaethedig 33 - a does dim byd gwaeth i ddelwedd y Gymraeg a chyfieithu fel ei gilydd na gweld cyfieithydd yn bresennol mewn cyfarfod a dim ganddo i'w wneud - mae'r geiriad yn golygu na chaiff siaradwyr Cymraeg, o reidrwydd, ddefnyddio'r iaith mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynhelir mewn unrhyw le yng Nghymru. Yn yr un modd, ni chredwn fod safonau arfaethedig 30 a 31 yn gyson â'r egwyddor sylfaenol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r geiriad ar hyn o bryd yn gorfodi siaradwyr Cymraeg i ofyn am yr hawl i siarad Cymraeg, ond nid oes raid i'r di-Gymraeg ofyn am gael siarad Saesneg".

Contractio gyda thrydydd parti

○ Dywed Strategaeth Iaith y Llywodraeth bod gofyn ‘sicrhau bod amodau priodol o ran y defnydd o’r Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth i grantiau a chontractau gael eu dyfarnu i gwmnïau’r sector preifat gan gyrff cyhoeddus⁴. Nid yw’r safonau yn mynd i’r afael â hyn. Ymddengys bod barn gref y dylai’r ddyletswydd sydd ymhlyg yn y Mesur gael ei amlygu drwy bennu safon neilltuol ar y mater. O wneud hynny ni fydd unrhyw amwysedd. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi pennu safon ar y mater yn ei hadroddiadau safonau.

Mae’r dyfyniadau canlynol yn gynrychioliadol o’r farn a fynegwyd mewn cysylltiad â’r ffaith bod angen pennu safon yn ymwneud ag absenoldeb safon mewn perthynas â chontractio trydydd parti.

‘Sicrhau amodau o ran y Gymraeg yn nhermau grantiau a chontractau (nid ystyried effaith grantiau ar y Gymraeg yn unig).’ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

‘y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy’n cael grant gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Dylai unrhyw arwyddion neu ddeunyddiau hysbysebu sy’n gysylltiedig â phrosiect sy’n derbyn cymorth grant fod yn ddwyieithog.’ Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

‘Nid oes yr un safon fyddai’n sicrhau bod gwasanaethau sy’n cael eu contractio allan - tua thraean o wariant cyhoeddus - yn cael eu darparu yn Gymraeg, sy’n wendid mawr.’ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

‘Nodwn fod safonau llunio polisi yn awgrymu mewn rhyw ffordd y bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth ddyfarnu grantiau, ond nid yw hynny’n gyfystyr â gosod amod y bydd yn rhaid i drydydd parti sy’n derbyn grant gydymffurfio â’r safonau.’ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

‘Nid oes sôn am osod amod ar gontractau trydydd parti o gwbl. Credwn ei bod yn gwbl hanfodol bod safon sy’n sicrhau y bydd cyrff yn gorfod gosod amodau iaith mewn contractau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r safonau.’ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

‘Mae’r safonau hyn yn trafod y broses o wneud ceisiadau grant yn Gymraeg ond ddim yn cynnwys unrhyw sôn am y gwasanaethau bydd yn cael eu darparu fel rhan o’r grant. Dylai’r safonau hyn fynd ymhellach a chael dylanwad ar iaith y gwasanaeth sydd yn cael ei ariannu gan arian cyhoeddus a holi cwestiwn i’r ymgeisydd sut byddan nhw yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg’ Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor

⁴ www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf

'Nid yw'r safonau yn crybwyll bod angen i ffurflenni tendro gynnwys adran yn holi ymgeiswyr i osod beth fyddan nhw yn wneud i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.' **Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor**

'Y ffaith bod gwasgedd cynyddol ar gyllidebau All - symud fwy fwy at gomisiynu cwmnïau allanol / trydydd parti i ddarparu gwasanaethau.' **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

'Mae angen i'r Safonau sicrhau fod yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu o dan gytundeb hefyd yn dilyn yr un Safonau. Mae angen eglurder o ran y broses caffael yn y Safonau. Nid yn unig o ran gwneud y broses caffael yn Gymraeg ond hefyd fod y gwasanaethau a gafaelir ar gael yn Gymraeg.' **Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**

'Mae yn bwysig i'r safonau sicrhau fod unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar ran y cyrff gan drydydd parti, drwy gytundeb, hefyd yn llwyr gydymffurfio â'r safonau.' **Merched y Wawr yn Genedlaethol**

'Dylai fod safon goruwch sydd yn ei gwneud hi'n glir fod y safonau hyn yn gymwys i unrhyw wasanaeth a wneir gan gorff arall o dan gytundeb.' **Simon Thomas AC - Aelod y Cynulliad dros y Canolbarth a'r Gorllewin, Gweinidog Cysgodol dros Addysg, Sgiliau a'r Iaith Gymraeg**

'Pryderwn yn ogystal am y bwlch y mae'r Safonau'n ei adael mewn perthynas â gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi'n allanol, dan gontract, i Awdurdodau Lleol. Un enghraifft amlwg iawn ym myd addysg yw'r pedwar consortiwm rhanbarthol - a fyddan nhw'n ddarostyngedig i'r Safonau hyn drwy eu perthynas gyda'r Awdurdodau Lleol?' **UCAC**

Diwedd

30 Mai 2014